# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD GWENER, 14 GORFFENNAF 2017 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | V M Evans | S J Gallagher |
| P Lloyd | C L Philpott | B J Rowlands |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Swyddog Adrannol, Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Kath Thomas | Swyddog Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, J P Curtice, H M Morris a/ac L G Thomas

22 **DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

23 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 16 Mehefin, 2017 a 30 Mehefin, 2017 fel cofnod cywir.

24 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 25 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL - SJH.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar y cefndir mewn perthynas ag SJH ac atebodd gwestiynau ynghylch gohiriad yn y cyfarfod ar 16 Mehefin mewn perthynas â chyflwr iechyd SJH. Dywedodd fod ei drwydded wedi ei hatal am gyfnod yn dilyn y cyfarfod hwnnw wrth aros am wybodaeth ychwanegol gan ei feddyg teulu am ei ffitrwydd i yrru cerbydau ac, ers hynny, mae cadarnhad wedi'i dderbyn gan ei feddyg teulu ac mae'r ataliad wedi'i ddiddymu.

Esboniodd SJH amgylchiadau ei gyflwr meddygol ac atebodd gwestiynau'r aelodau ynghylch ei gollfarn.

**PENDERFYNWYD** anfon llythyr o rybudd at SJH ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

## 26 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL - CIS.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar y cefndir mewn perthynas â CIS, ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Esboniodd CIS amgylchiadau ei gollfarn ac atebodd gwestiynau'r aelodau ynghylch ei droseddau.

**PENDERFYNWYD** atal trwydded bathodyn deuol CIS am gyfnod o 4 wythnos.

Rheswm dros y Penderfyniad
Gweithredodd y pwyllgor trwyddedu yn ôl y canllawiau ar droseddau traffig.

- roedd rhybudd am oryrru eisoes wedi'i gyflwyno,
- cyflawnwyd y drosedd o fewn 3 mis o gyflwyno'r rhybudd blaenorol.
- mae'n bosib nad oedd yr ymgeisydd yn llawn sylweddoli difrifoldeb y drosedd
- mae'n annhebygol y byddai rhybudd arall wedi'i barchu ac felly mae atal yn gyfiawnadwy.

## 27 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR HURIO PREIFAT - LLS.

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar y cefndir mewn perthynas â LLS, ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Esboniodd LLS amgylchiadau'r rhybudd ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO** cais LLS am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chyflwyno llythyr o rybudd cryf i LLS ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

28 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - NM.**

Amlinellodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch nad oedd NM yn bresennol, ond ei fod wedi cytuno i'r pwyllgor yn ystyried y mater yn ei absenoldeb. Cytunodd aelodau i glywed yr achos yn ei absenoldeb.

Manylodd ar y cefndir mewn perthynas â chollfarnau NM a'i fethiant i hysbysu'r awdurdod am y troseddau, ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD** tynnu trwyddedau gyrru cerbyd hacni a hurio preifat NM yn ôl.

Rheswm dros y Penderfyniad
Ni chydymffurfiodd yr ymgeisydd ag amodau ei drwydded drwy fethu â dychwelyd ei fandad DVLA ar gais swyddogion trwyddedu er mwyn iddynt allu cwblhau gwiriad blynyddol o'i drwydded DVLA.
Ni ystyriwyd ei fod yn gymeriad addas a phriodol yn dilyn ei gollfarnau ar gyfer trais, ac roedd yr ymgeisydd eisoes wedi derbyn rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol pan roddwyd trwydded iddo ym mis Ebrill 2016.

29 **DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREF 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI A GYRRWR HURIO PREIFAT - PTJ.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar y cefndir mewn perthynas â PTJ, ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Esboniodd PTJ amgylchiadau ei gollfarn ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO** cais PTJ am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chyflwyno llythyr o rybudd i PTJ ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

30 **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL - TJH.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar y cefndir mewn perthynas â chais TJH i adnewyddu ei thrwyddedau cerbyd hacni a hurio preifat ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Darparodd fanylion am ymddangosiadau blaenorol TJH gerbron y pwyllgor trwyddedu a phenderfyniadau'r pwyllgor mewn perthynas â'r materion a ystyriwyd. Roedd TJH eisoes wedi derbyn dau rybudd ysgrifenedig am fethu â datgan dwy gollfarn flaenorol, yn unol ag amodau’r drwydded. Fodd bynnag, roedd TJH wedi hysbysu'r awdurdod o'r drosedd ddiweddaraf, pan dderbyniwyd cosb o ddirwy ganddi, ar ei ffurflen adnewyddu.

Esboniodd THJ amgylchiadau ei throsedd ac atebodd gwestiynau'r aelodau ynghylch y mater.

**PENDERFYNWYD**

1) atal trwydded bathodyn deuol TJH am gyfnod o 6 mis.

   Rheswm dros y Penderfyniad
   Mae gan yr ymgeisydd hanes o beidio â hysbysu'r Adran Drwyddedu am unrhyw gollfarnau neu dorri telerau'r drwydded. Rhoddwyd sawl rhybudd blaenorol i'r ymgeisydd ac fe'u hanwybyddwyd, ac mae'n bosib nad yw'r ymgeisydd yn llawn sylweddoli difrifoldeb y drosedd.

2) peidio â chymryd unrhyw gamau o ran trwydded yrru cerbyd hacni TJH.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.25 am

**CADEIRYDD**